## Cyflwyniad a Diolchiadau

Pleser digymysg yw cyflwyno'r casgliad hwn o ganeuon gwerin a hwiangerddi Cymru i chi delynorion ifanc. Y tro hwn, rwyf wedi ychwanegu geiriau'r alawon a'r hwiangerddi ar ôl pob trefniant. Rwyf hefyd wedi cael tipyn o hwyl gyda thelynorion Ysgol Gymraeg Santes Tudful ac Ysgol Gymraeg Rhydygrug wrth iddynt ddarlunio'r alawon a'r hwiangerddi, ac rwy'n ddiolchgar dros ben iddynt am eu brwdfrydedd a'u gwreiddioldeb.

Unwaith eto, mae fy nyled yn fawr i Dr. Meredydd Evans a Miss Phyllis Kinney am fod mor barod i ysgrifennu nodiadau cefndir diddorol a phwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg i'w cynnwys yn y llyfr. Hefyd i fy ngŵr, Brian Raby, am ei waith diflino wrth baratoi cynnwys y llyfr i'w gyhoeddi.

Ein braint yn mwynhau ein hwiangerddi a'n halawon gwerin wrth feistrolu'r grefft o ganu'r delyn, a gobeithiaf yn fawr y bydd y gyfrol hon yn fodd i chi delynorion ifanc i ennyn diddordeb yn ein cerddoriaeth draddodiadol unigryw.

## Introduction and Acknowledgements

Wales' rich heritage of traditional music has inspired me to prepare this collection of folksongs and lullabies dedicated to young harpists. For this volume I have been assisted by the harpists of both Ysgol Gymraeg Santes Tudful and Ysgol Gymraeg Rhydygrug who have illustrated these folksongs and lullabies. I am most indebted to them for their remarkable enthusiasm and notable originality.

Once again I am grateful to Dr. Meredydd Evans and Miss Phyllis Kinney for providing interesting background notes for these melodies. Also my husband, Brian Raby for preparing this book for publication.

Let these folksongs inspire you not only to become competent harpists but also to develop an affinity with our national music.



## Nodiadau Perfformio

Dylid dechrau gyda "Dau Gi Bach" a gweithio'n raddol drwy'r llyfr gan roi sylw gofalus i'r ymarferiadau. Rhaid ymarfer yn araf  a chryf i ddatblygu techneg gadarn. Gellir ychwanegu rhagor o ymarferiadau o lyfr Maria Grossi – "Metodo per Arpa" er mwyn meistroli pob cam technegol yn drylwyr. Mae Cynnwys y llyfr yn addas i'r delyn bedal a'r delyn geltaidd.

## Performance Notes

Start at the beginning with "Two Puppies"  and work methodically through the book giving careful attention to the accompanying exercises. You must practice slowly and loudly to develop a secure technique. You may also supplement the exercises with additional material from Maria Grossi's "Metodo per Arpa", so that you master each stage of technical development. The whole book is suitable for both pedal and non-pedal harp.